

Cyflwyniadau gan Artistiaid

Meini Prawf a Chanllawiau Cyflwyno

Caiff ceisiadau ar gyfer arddangosfeydd eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf canlynol:

- **Ansawdd** Safon a chalibr y gwaith; lefel arloesedd, lefel gwreiddioldeb
- Perthnasedd i gynulleidfaoedd Oriol Davies Gallery
- **Y posibilrwydd o raglen addysg** yn cynnwys gweithdai cysylltiedig / digwyddiadau / gweithgareddau
- Goblygiadau o ran **cost** i'r oriel, a p'un ai a yw'r cais yn debygol o ddenu digon o arian i'w wireddu
- **Pethau ymarferol** Yr ystyriaethau ymarferol sydd ynghlwm wrth gynnal y gwaith neu'r arddangosfa
- **Diddordeb Ehangach** Rhag ofn i arddangosfeydd gael eu datblygu er mwyn teithio - y lefel o ddiddordeb tebygol gan orielau/lleoliadau eraill. (Bydd arddangosfeydd sy'n cael eu datblygu er mwyn teithio angen o leiaf 2 flynedd o baratoad rhwng y syniad a'r cynnyrch terfynol).

Os hoffech chi i'r oriel ystyried eich gwaith neu gais am arddangosfa, dilynwch y canllawiau hyn:

- Anfonwch sleidiau neu brintiau (dim mwy na 15) ac/neu Gryno Ddisgiau, sydd wedi'u marcio'n glir gyda'r teitl, y dyddiad, y cyfrwng a'r dimensiynau, eich enw a'ch cyfeiriad yn ogystal â rhestr o'r sleidiau.
- Peidiwch ag anfon gwaith celf wreiddiol i'r oriel gan na allwn fod yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed wrth gludo ac nid oes gennym le i storio'r gwaith
- Anfonwch CV diweddar, datganiad gan yr artist ac os yn berthnasol, cais/syniad am yr arddangosfa.
- Amgawch Amlen â Chyfeiriad a Stamp i ddychwelyd eich eitemau. Os hoffech chi i'r rhain gael eu dychwelyd erbyn dyddiad arbennig, nodwch hyn yn eich llythyr cais.

Anfonwch eich cyflwyniad / cais i:

Alex Boyd
Curadur
Oriol Davies Gallery
Y Parc
Y Drenewydd
Powys
SY16 2NZ

Os hoffech chi gael trafodaeth anffurfiol ynghylch rhaglen yr arddangosfa, gallwch chi gysylltu ag Alex Boyd ar 01686 625041 neu anfonwch e-bost at: alex@orioldavies.org. **byddwch yn amyneddgar a chaniatewch hyd at dri mis iddo gael ei ystyried.**

Fel arall, gallai eich gwaith fod yn addas/gymwys ar gyfer rhaglen Test Bed Oriol Davies, sydd wedi'i hymroddi i arddangos gwaith newydd ac arbrofol sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru a'r Gororau. Ewch i dudalen 'Test Bed' o'r wefan am ragor o wybodaeth.